

JAMES, EDWARD (1569? - 1610?), clerigwr a llenor

Enw: Edward James
Dyddiad geni: 1569?
Dyddiad marw: 1610?
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: David Gwenallt Jones

Ganwyd yn sir Forgannwg. Ymaelododd yn Rhydychen o S. Edmund Hall, 11 Mawrth 1585/6, yn 16 oed; B.A. o Goleg Iesu, 16 Mehefin 1589; M.A., 8 Gorffennaf 1592. Gwnaed ef yn ficer Caerlleon-ar-Wysg, Chwefror 1595-6, yn rheithor Shire-Newton, 8 Awst 1597, yn rheithor Llangatwg-ger-Wysg, 15 Ebrill 1598, yn ficer Llangatwg-feibion-Afel, 12 Gorffennaf 1599, yn ficer Llangatwg ger Castellnedd, 23 Gorffennaf 1603, ac yn ganghellor Llandaf yn 1606.

Yn 1606 cyfieithodd *Certain Sermons or Homilies* i'r Gymraeg, o dan y teitl *Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod i'w darllein ymhob Eglwys blwyf a phob capel er adailadaeth i'r bobl annyscedig. Gwedi eu troi i'r iaith Gymeraeg drwy waith Edward James ...* 1606. Cyhoeddwyd ail arg. o'r *Homiliau* gan [John Roberts](#), Tremeirchion, yn 1817, a trydydd arg. yn 1847 gan '[Nicander](#).'

Gan nad oes cofnodion am y cyfnod hwn ar glawr yn esgobaeth Llandaf, ni ellir cael gwybod pryd y bu farw; 1610 yw'r dyddiad a roir gan [J. C. Morrice](#), ond ni phenodwyd olynnydd iddo cyn 1620 ([D. R. Phillips](#), *Hist. of the Vale of Neath*, 76).

Awdur

David Gwenallt Jones, (1899 - 1968)

Ffynonellau

Alumni Oxonienses

Clerical Institutions Wales Ending 1840 (*NLW MS 1626*)

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Edward James](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5343717](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

